**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/GH

13 Ionawr 2017

Annwyl Gadeirydd

Yn 2015, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau allgymorth yn Wrecsam ac Abertawe, gyda'r nod o fynd â gwaith y Cynulliad at bobl Cymru. Y rheswm i ni ddewis Wrecsam ac Abertawe oedd oherwydd bod y niferoedd a bleidleisiodd yn y ddwy ardal yn arbennig o isel yn etholiad y Cynulliad yn 2011.

Fel rhan o fentrau Senedd@Wrecsam a Senedd@Abertawe, cyflwynodd staff raglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, ymweliadau a gweithdai a lwyddodd i ymgysylltu â mwy na 5000 o bobl ynghylch gwaith y Cynulliad. Hefyd, llwyddwyd i feithrin cysylltiadau gwaith newydd â mudiadau lleol allweddol a'r cyfryngau, a roddodd sylw i'r digwyddiadau a gynhaliwyd.

Er mwyn cynnal y momentwm yn sgil ein hymweliadau â Wrecsam ac Abertawe, ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, rwy'n awyddus i drefnu digwyddiad Senedd@ arall yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 20 Mawrth 2017. I barhau â'n taith o amgylch cymunedau Cymru, rydym wedi dewis Casnewydd fel lleoliad menter nesaf Senedd@.

Un o ganfyddiadau'r gwerthusiadau o fentrau blaenorol Senedd@ oedd yr angen i alluogi pwyllgorau i ystyried eu cyfraniad posibl yn gynnar yn y broses gynllunio. Felly, rwy'n gwahodd awgrymiadau gan eich pwyllgor ynghylch sut y gallwch gyfrannu at Senedd@Casnewydd.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, cynhaliodd pwyllgorau gyfarfodydd ffurfiol yn y gymuned, gan gymryd y cyfle i annog pobl i ymwneud â'u gwaith. Bydd Senedd@Casnewydd yn gyfle gwych i'ch pwyllgor godi ei broffil a meithrin perthynas waith newydd â llawer o fudiadau a chyfryngau lleol.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Geraint Huxtable ar 0300 200 6277 neu: Geraint.Huxtable@Cynulliad.Cymru.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd